OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1821 (Cy. 263)

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 ("y Prif Reoliadau") yng ngoleuni adrannau 17(4) a 27(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ("Deddf 2015"). Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio i gynnwys darpariaeth mewn cysylltiad ag apelau newydd y caniateir eu gwneud i dribiwnlys eiddo preswyl o dan Ddeddf 2014 a Deddf 2015.

Mewn perthynas ag adrannau 17(4) a 27(1) o Ddeddf 2014, y rhain yw apelau yn erbyn penderfyniad i osod amodau penodol ar drwydded, apelau yn erbyn dirymu cofrestriad fel landlord, apelau yn erbyn diwygio trwydded, apelau yn erbyn dirymu trwydded ac apelau yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi trwydded.

Mewn perthynas â Deddf 2015, y rhain yw apelau a wneir gan asiantau gosod yn erbyn cosbau ariannol a osodwyd yn eu herbyn gan awdurdod pwysau a mesurau lleol.

Mae Rhan 1 o Ddeddf 2014 yn ymwneud â rheoleiddio tai rhent preifat. Mae Rhan 1 yn cynnwys gofyniad i'r mwyafrif o landlordiaid anheddau sy'n cael eu gosod neu a fydd yn cael eu gosod, o dan denantiaethau domestig, fel y'u diffinnir yn adran 2(1) o Ddeddf 2014, gofrestru gyda'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Yn yr un modd, mae'n ofynnol i bersonau sy'n ymwneud â gosod neu reoli anheddau o'r fath gael trwydded gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol.

Mae'r pŵer gan awdurdodau trwyddedu i wrthod trwydded; i roi trwydded gydag amod bod deiliad y drwydded yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ac unrhyw amodau eraill yr ystyriant yn briodol; i ddiwygio trwydded ac i

ddirymu trwydded landlord neu asiant. Mae Rhan 1 o Ddeddf 2014 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer landlordiaid neu ddeiliaid trwydded i apelio i dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn penderfyniad awdurdod trwyddedu i roi trwydded yn ddarostyngedig i amod ac eithrio amod bod deiliad y drwydded yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru; i wrthod trwydded; i ddiwygio neu i ddirymu trwydded.

Mae Pennod 3 o Ran 3 o Ddeddf 2015 yn gosod dyletswydd ar asiant gosod i roi cyhoeddusrwydd i'w ffioedd ac yn ymdrin â gorfodi'r ddyletswydd honno. Mae'n darparu mai dyletswydd pob awdurdod pwysau a mesurau lleol yw gorfodi'r ddyletswydd yn ei ardal. Mae hefyd yn darparu y caiff awdurdod pwysau a mesurau lleol osod cosbau ariannol yn erbyn asiant gosod nad yw'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ran 3 o Ddeddf 2015.

Mae Atodlen 9 i Ddeddf 2015 yn ymdrin â'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod pwysau a mesurau lleol ei dilyn cyn gosod cosbau ariannol ar asiant gosod.

Mae Atodlen 9 i Ddeddf 2015 yn nodi'r broses sydd i'w dilyn gan awdurdod pwysau a mesurau lleol o ran cymryd camau gorfodi ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer asiantau gosod i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â hyn. Mae Atodlen 9 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer apelau y caniateir eu gwneud gan asiant gosod y mae hysbysiad terfynol sy'n gosod cosb ariannol wedi ei gyflwyno iddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1821 (Cy. 263)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Hydref 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym* | *23 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(**1**) gan adran 250(2) o Ddeddf Tai 2004 ac Atodlen 13 iddi(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio) 2015 a deuant i rym ar 23 Tchwedd 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i achosion gerbron tribiwnlysoedd eiddo preswyl ar gyfer penderfynu ceisiadau(**3**) mewn cysylltiad â mangreoedd yng Nghymru.

**Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012**

**2.** Mae Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(**4**) wedi eu diwygio yn unol â'r Atodlen.

(**1**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Tai 2004 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(2)(c) o Atodlen 11 iddi.
(**2**) 2004 p. 34.
(**3**) Diffinnir y term "ceisiadau" yn rheoliad 2 o Reoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2012/531 (Cy. 83).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o
Weinidogion Cymru
21 Hydref 2015

# YR ATODLEN Rheoliad 2

## Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

**1.** Yn rheoliad 2—

(a) yn y mannau priodol mewnosoder—

“ystyr “Deddf 2015” (“*the 2015 Act*”) yw Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015(**1**);”;

“ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Tai (Cymru) 2014(**2**);”;

(b) yn y diffiniad o “cais”—

(i) ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer “neu”;

(ii) ar ddiwedd paragraff (ch), yn lle “,” rhodder “;”; a

(iii) ar ôl paragraff (ch), mewnosoder—

“(d) adrannau 17(4) neu 27(1) o Ddeddf 2014; neu

(dd) Deddf 2015,”;

(c) yn y mannau priodol mewnosoder—

“mae i “asiant gosod”, mewn cysylltiad â chais a wneir o dan Ddeddf 2015, yr un ystyr â “letting agent” yn adran 84 o Ddeddf 2015;”;

“mae i “awdurdod pwysau a mesurau lleol” mewn cysylltiad â chais a wneir o dan Ddeddf 2015, yr un ystyr â “local weights and measures authority” yn adran 69(2) o Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985;”;

“mae i “awdurdod trwyddedu” (“*licensing authority*”) yr un ystyr ag yn adran 49(1) o Ddeddf 2014;”;

“mae i “landlord” (“*landlord*”), at ddibenion ceisiadau o dan adrannau 17(4) neu 27(1) o Ddeddf 2014, yr un ystyr ag yn adran 2(1) o’r Ddeddf honno;”; ac

(d) yn y diffiniad o “mangre”—

(i) ym mharagraff (a) ar ôl “Deddf 2013” mewnosoder “neu Ddeddf 2015” ac ar ddiwedd paragraff (a) hepgorer y gair “a”;

(ii) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder y gair “ac”; a

(iii) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

---

(**1**) 2015 p. 15.
(**2**) 2014 dccc 7.

“(c) mewn cais a wneir o dan Ddeddf 2015, unrhyw fangre y dylai cyhoeddusrwydd fod wedi ei roi yno i ffi’r asiant gosod y mae cais yn ymwneud â hi;”.

**2.** Yn rheoliad 4(1), ar ôl “Deddf 2013,” mewnosoder “Deddf 2014”.

**3.** Yn rheoliad 14(1)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (b)(ii) yn lle “.” rhodder “;”;

(b) ar ôl is-baragraff (b)(ii) mewnosoder—

“(c) yn achos cais a wnaed o dan Ddeddf 2014—

(i) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â’r un landlord;

(ii) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â’r un annedd; neu

(iii) yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â’r un asiant sydd wedi ei drwyddedu o dan adran 9 neu adran 11 o Ddeddf 2014;

(ch) yn achos cais a wnaed o dan Ddeddf 2015 yn ymwneud â materion cysylltiedig ynglŷn â’r un asiant gosod.”

**4.** Yn rheoliad 40(5), ar ôl “Deddf 2013” mewnosoder “, Deddf 2014, Deddf 2015”.

**5.** Ar ôl rheoliad 47, mewnosoder—

**“47A. Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2014**

Yn ddarostyngedig i reoliad 49(2) mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan ddarpariaethau canlynol Deddf 2014—

(a) adran 17(4) (dirymu cofrestriad);

(b) adran 27(1) (apelau trwyddedu).

**47B. Ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 2015**

Yn ddarostyngedig i reoliad 49(2) mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan baragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 2015.”

**6.** Yn rheoliad 48, yn lle “neu 47” rhodder “, 47, 47A neu 47B”.

**7.** Yn rheoliad 49—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "neu 47" rhodder ", 47, 47A neu 47B"; a

(b) ym mharagraff (2), yn lle "neu 47" rhodder ", 47, 47A neu 47B".

**8.** Yn rheoliad 50(1), yn lle "neu 47" rhodder ", 47, 47A neu 47B".

**9.** Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 72 mewnosoder—

**"Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2014**

***Ceisiadau sy'n ymwneud â dirymu cofrestriad landlord***

**73.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais a wneir o dan adran 17(4) o Ddeddf 2014 (apêl yn erbyn dirymu cofrestriad).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o fwriad yr awdurdod trwyddedu i ddirymu cofrestriad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(b) unrhyw sylwadau a wnaed gan y landlord mewn ymateb i hysbysiad o fwriad yr awdurdod trwyddedu i ddirymu cofrestriad;

(c) copi o'r hysbysiad sy'n dirymu cofrestriad y landlord a'r rhesymau a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu; ac

(ch) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod trwyddedu.

***Ceisiadau sy'n ymwneud ag apelau trwyddedu***

**74.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 27(1) o Ddeddf 2014.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o fwriad yr awdurdod trwyddedu i ddiwygio neu ddirymu'r drwydded neu i wneud y drwydded yn ddarostyngedig i amod, yn ôl y digwydd, a'r rhesymau dros ei benderfyniad;

(b) unrhyw sylwadau a wnaed mewn ymateb i hysbysiad o fwriad yr awdurdod trwyddedu i ddiwygio neu ddirymu'r drwydded;

(c) copi o'r hysbysiad sy'n gwneud y drwydded yn ddarostyngedig i amod (ac eithrio gofyniad i gydymffurfio â chod ymarfer a ddyroddwyd gan

Weinidogion Cymru), sy'n gwrthod rhoi, sy'n diwygio neu'n dirymu'r drwydded, yn ôl y digwydd, a'r rhesymau a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu; ac

(ch) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod trwyddedu.

**Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2015**

***Ceisiadau sy'n ymwneud â hysbysiadau terfynol***

**75.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais a wneir o dan baragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 2015 (apêl yn erbyn cosb ariannol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o fwriad a gyflwynwyd i'r asiant gosod gan yr awdurdod pwysau a mesurau lleol o dan baragraff 1(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 2015;

(b) copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan yr asiant gosod ar ôl cael yr hysbysiad o fwriad a ddyroddwyd o dan baragraff 2 o Atodlen 9 i Ddeddf 2015;

(c) copi o'r hysbysiad terfynol a gyflwynwyd i'r asiant gosod gan yr awdurdod pwysau a mesurau lleol o dan baragraff 3 o Atodlen 9 i Ddeddf 2015; ac

(ch) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod pwysau a mesurau lleol perthnasol."